***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/01/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Paragraff 11. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 2

## TELERAU CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

### RHAN 1

### TELERAU A YMHLYGIR GAN Y DDEDDF

#### PENNOD 2

#### CYTUNDEBAU SY'N YMWNEUD Â LLEINIAU AC EITHRIO'R RHAI HYNNY SYDD AR SAFLEOEDD AWDURDODAU LLEOL I SIPSIWN A THEITHWYR

*Gwerthu cartref symudol*

11 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r meddiannydd yn bwriadu gwerthu'r cartref symudol, ac aseinio'r cytundeb, yn unol â pharagraff 9 neu 10.

(2) Rhaid i'r meddiannydd, heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau cyn cwblhau gwerthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb, roi'r canlynol i'r meddiannydd arfaethedig—

(a) unrhyw ddogfennau, neu ddogfennau o unrhyw ddisgrifiad, a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, a

(b) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir yn y rheoliadau, yn y ffurf a ragnodir ynddynt.

(3) Ond os bydd y meddiannydd arfaethedig yn cydsynio mewn ysgrifen i'r dogfennau a'r wybodaeth arall gael eu rhoi erbyn dyddiad ("y dyddiad a ddewiswyd") sy'n llai nag 28 o ddiwrnodau cyn cwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb, rhaid i'r meddiannydd roi'r dogfennau a'r wybodaeth arall i'r meddiannydd arfaethedig heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a ddewiswyd.

(4) Mae'r dogfennau a'r wybodaeth arall y caniateir eu rhagnodi mewn rheoliadau o dan is-baragraff (2) yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain)—

(a) copi o'r cytundeb,

(b) copi o reolau'r safle (os oes rhai) ar gyfer y safle gwarchodedig y gosodwyd y cartref symudol arno,

(c) manylion y ffi am y llain sy'n daladwy o dan y cytundeb,

(d) cyfeiriad anfon ymlaen y meddiannydd,

(e) mewn achos o fewn paragraff 9, gwybodaeth am y gofyniad a osodir yn rhinwedd is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw,

(f) manylion y comisiwn a fyddai'n daladwy gan y meddiannydd arfaethedig yn rhinwedd paragraff 9(4) neu 10(8),

(g) gwybodaeth am unrhyw ofynion a ragnodir mewn rheoliadau o dan baragraff 9(6) neu 10(10).

(5) Caniateir i ddogfennau neu wybodaeth arall y mae'n ofynnol eu rhoi o dan y paragraff hwn gael eu rhoi i'r prynwr arfaethedig yn bersonol neu eu hanfon drwy'r post.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/01/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Paragraff 11. (See end of Document for details)*

(6) Caniateir i hawliad bod person wedi torri'r ddyletswydd o dan is-baragraff (2) neu (3) fod yn destun achos sifil yn yr un modd ag unrhyw hawliad arall mewn camwedd am dorri dyletswydd statudol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 64(2)**

**I2** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 7.1.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/11, **ergl. 2(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/01/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Paragraff 11.